

Eitem rhif 2.2.4 ar yr agenda

COFNODION 'HEB EU CADARNHAU' O GYFARFOD 'MEWN PWYLLGOR' O FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG (CTMUHB), A GYNHALIWDYDD DDYDD IAU 30 IONAWR 2020 Tŷ Ynysmeurig, Abercynon

YN BRESENNOL:

Marcus Longley	Cadeirydd
Sharon Hopkins	Prif Weithredwr (Dros Dro)
Maria Thomas	(Is-gadeirydd)
Ian Wells	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol
Alan Lawrie	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Steve Webster	Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael
Liz Wilkinson	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Nick Lyons	Cyfarwyddwyr Meddygol

YN ARSYLWI:

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr	Llywodraethiant Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd (Dros Dro)
Hywel Daniel	Dirprwy Gryfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	
John Palmer	Prif Swyddog Gweithredol	
Erica Hawes	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	
Clare Williams	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio a Phartneriaethau	
Emma Walters	Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor	

UHB/B/20/001

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

UHB/B/20/002

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Eitem rhif 2.2.4 ar yr agenda

CAFWYD ymddiheuriadau gan Anne Phillimore, Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol; Paul Griffiths, Aelod Annibynnol; Keiron Montague, Aelod Annibynnol; Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus; Mel Jehu, Aelod Annibynnol; Paul Griffiths, Aelod Annibynnol a Ruth Treharne, Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad.

DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Nid oedd yr un datganiad o fuddiant.

UHB/B/20/004 **I YSTYRIED YR ADRODDIAD DIWYDRWYDD DYLADWY AR BEN-Y-BONT AR OGWR**

Cyflwynodd S Webster yr adroddiad a dywedodd fod yr adroddiad wedi ei roi gerbron y Bwrdd Rheoli hefyd. **NODODD** Aelodau i'r drafodaeth a gafwyd yn y Bwrdd Rheoli dynnu sylw at y ffaith y byddai angen lleihad sylweddol mewn gorbenion corfforaethol oherwydd diffyg Pen-y-bont.

NODODD Aelodau i'r adroddiad drafod gwersi a ddysgwyd. Dywedodd S Webster iddo fwrw golwg dros bob pwynt a wnaed ac iddo roi sylwadau manwl am bob un, gan nodi yn ogystal ei fod yn teimlo bod y rhagolygon a wnaed yn rhesymol. **NODODD** Aelodau i'r Bwrdd Iechyd gytuno eisoes i leihau'r buddsoddiad mewn Aadrannau Corfforaethol gan £1m, ar wahân i'r Gyfarwyddiaeth Gofal a Diogelwch Cleifion.

Dywedodd M Longley iddo dderbyn sylwadau ar yr adroddiad gan Paul Griffiths, Aelod Annibynnol a oedd wedi bod yn aelod o'r Cyd-fwrdd Pontio, ac roedd hwnnw wedi nodi iddo deimlo y dylai dderbyn cyngor Price Waterhouse Coopers er anfoddog yr oedd i wneud hynny, ac er bod canfyddiadau'r adroddiad wedi ei siomi. Cytunodd S Webster na fyddai'n fuddiol i'r Bwrdd Iechyd herio'r adroddiad a'i ganfyddiadau.

Dywedodd S Hopkins i'r adroddiad dynnu sylw at nifer o faterion yn yr adroddiad ac nad oedd pob un o'r materion hyn dan reolaeth y Bwrdd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

- **NODI'R** adroddiad;
- **NODI** ymateb y Bwrdd Iechyd;
- **CEFNOGI'R** penderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r gostyngiad o £1m mewn gorbenion corfforaethol.

UHB/B/20/005 **AGWEDDAU ARIANNOL AR Y CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG**

Eitem rhif 2.2.4 ar yr agenda

Rhoddodd C Williams ddiweddariad i'r Bwrdd, a nododd i ddrafft o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2019, a derbyniwyd adborth wedi hynny.

Cafodd cyfarfod â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru ei gynnal ym mis Ionawr 2020 i drafod adborth pellach ar y drafft. **NODODD** Aelodau i'r adborth a dderbyniwyd ym mis Tachwedd dynnu sylw at y ffaith nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu gweld unrhyw reswm pam na allai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno cynllun y gellid ei gymeradwyo, a gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar bedwar prif faes, sef:

- Uchelgais BIP Cwm Taf Morgannwg fel sefydliad newydd, ei ddiwylliant a'i arweinyddiaeth;
- Taith BIP Cwm Taf Morgannwg at wella gyda ffocws ar ansawdd;
- Perfformiad a chynaliadwyedd;
- Llywodraethu a lliniaru risg.

NODODD Aelodau fod rhagor o waith wedi ei wneud ar yr ymateb i Asesiad Strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru ers cyflwyno'r drafft ym mis Tachwedd 2019, a bod trafodaethau wedi eu cynnal am amcanion strategol y sefydliad. **NODODD** Aelodau y byddai cymeradwyo'r amcanion yn bwysig iawn i alluogi'r Bwrdd Iechyd i rannu'r amcanion hynny mewn digwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol.

Dywedodd I Wells ei fod am weld cyfeiriad at wasanaethau Digidol fel hwylusydd strategol yn yr IMTP. Dywedodd S Hopkins y byddai angen ystyried yn ofalus pa hwyluswyr y byddai angen eu cynnwys ar y lefel hon, ac fe'i **NODWYD** y bydd angen rhoi sicrwydd i I Wells bod gwasanaethau digidol yn rhan fawr o'r lefel nesaf i lawr.

Dywedodd S Hopkins i drafodaethau gael eu cynnal â staff am yr amcanion arfaethedig, a dywedodd ei bod yn bosibl y bydd rhaid edrych eto ar yr amcanion ar ryw adeg yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau: **GYMERADWYO'R** amcanion.

NODODD Aelodau fod ffocws wedi cael ei roi ar ansawdd, a **NODWYD** chwe datganiad clir yn ymwneud ag ansawdd a gawsant eu cynnwys yn yr IMTP. **NODODD** Aelodau fod gwaith ar y gweill i liniaru'r risgiau yn ymwneud â llywodraethiant, ac y byddai angen rhagor o waith i driongli adnoddau ansawdd a chanlyniadau. Fe'i nodwyd yn ogystal fod gwaith yn cael ei wneud ar Asesiadau ar yr Effaith ar Ofal, ac y byddai'r rhain yn cael eu trafod ymhellach yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Eitem rhif 2.2.4 ar yr agenda

Dywedodd S Webster i adborth gael ei dderbyn o Lywodraeth Cymru ar 3 Ionawr 2020 ar yr bennod ynghylch cyllid. Roedd yr adborth wedi cwestiynu a fyddai modd i'r Bwrdd Iechyd gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. **NODODD** Aelodau fod y diffyg a ragwelir ym Mlwyddyn 1 yn golygu na ellid cymeradwyo'r cynllun.

Dywedodd S Webster fod cyngor anffurfiol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru hefyd, a bod y cyngor hwnnw yn cael ei ystyried wrth i ddrafft terfynol o'r IMTP gael ei lunio.

NODODD Aelodau fod trafodaethau manwl wedi eu cynnal â'r Tîm Gweithredol ac aelodau o'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu ynghylch amserlenni ar gyfer cyrraedd sefyllfa lle mae costau yn cael eu clirio.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y canlyniadau posibl pe na bai cynllun yn cael ei gyflwyno yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. **NODODD** Aelodau y byddai angen cyflwyno llythyr swyddog cyfrifol i Lywodraeth Cymru os na allai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno'r cynllun erbyn diwedd Ionawr 2020, yn nodi'r rhesymau dros hyn. **NODODD** Aelodau na fyddai'r Bwrdd Iechyd yn mynd yn groes i'w ddyletswyddau ariannol, gan y byddai ganddo gynllun dilys yn ei le hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol o hyd.

Rhannodd M Longley sylwadau â'r Bwrdd gan y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu, a **NODWYD** bod y Pwyllgor o'r farn y byddai'n well gohirio cyflwyno'r cynllun tan ddiwedd Mawrth 2020, er mor anfoddog yr oeddent i wneud hynny.

Gofynnodd M Longley am eglurder ynghylch beth fyddai'n digwydd pe bai'r Bwrdd Iechyd o hyd yn credu na all gyflwyno cynllun y gellid ei gymeradwyo erbyn diwedd Mawrth 2020. Dywedodd S Webster y byddai angen sicrhau bod y cynllun ar ffurf y gellid ei chymeradwyo cyn y pwynt hwn, ac y byddai angen i'r cynllun gynnwys cynlluniau y mae'r Bwrdd Iechyd yn credu y gall eu cyflawni.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

- **GYTUNO** i ohirio cyflwyno'r cynllun tan ddiwedd Mawrth 2020.

ACHOS BUSNES CANOLFAN IECHYD A LLES PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd A Lawrie yr adroddiad a'r cyflwyniad, a dywedodd fod y broses o gael cymeradwyaeth ar gyfer yr Achos Busnes Llawn gan y Bwrdd ar y gweill.

Eitem rhif 2.2.4 ar yr agenda

NODODD Aelodau fod achos busnes amlinellol wedi ei lunio gan Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn 2018, a bod hwnnw wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn newid y ffin i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, trosglwyddodd y cynllun i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, ac yn dilyn adolygiad o'r cynllun, nodwyd y byddai angen rhagor o waith arno.

NODODD Aelodau mai'r cynllun a gynigiwyd oedd y byddai Canolfan Iechyd a Lles Pen-y-bont ar Ogwr yn Ganolfan Gofal Sylfaenol Integredig i wasanaethu poblogaeth sy'n tyfu. Mae proses tendro wedi ei chynnal a bydd LINC Cymru yn caffael y cyfleuster ar gyfer y Bwrdd Iechyd. **NODODD** Aelodau fod costau cyfalaf wedi cynyddu o gymharu â'r costau a gyflwynwyd yn yr Achos Busnes Amlinellol, a bod costau refeniw yn cyfateb yn fras i gyllidebau presennol.

NODODD Aelodau fod gwerthusiad trylwyr o'r opsiynau wedi ei wneud, a'r gobraith oedd y byddai modd i'r gwaith ddechrau yn Ebrill 2020 pe câi'r Achos Busnes ei gymeradwyo. **NODODD** Aelodau fod rhai materion sydd heb eu datrys o hyd ac y byddai angen datrys y materion hyn; yn bennaf roedd y rhain yn ymwneud â pharcio a'r cynllun rhwydwaith ffynonellau gwres. **NODODD** Aelodau y gellid cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â'r materion sydd heb eu datrys cyn ymrwymo i gytundeb.

PENDERFYNODD Aelodau:

- **GYMERADWYO'R** Achos Busnes Llawn a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ar yr amod na fyddai'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i gytundeb ar gyfer gwaith:
 1. Heb gytundeb cydweithredu a lofnodwyd, y mae Linc a'r Bwrdd Iechyd ill dau wedi ymrwymo iddo;
 2. Oni bai bod y risgiau yn ymwneud â'r Rhwydwaith Ffynonellau Gwres yn cael eu lliniaru;
 3. Oni bai bod ffordd ymlaen yn cael ei chanfod am barcio o dan S106, sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyllid;
 4. Oni bai bod unrhyw gostau cyfalaf ychwanegol na ellir eu hosgoi yn dod o Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf.

UHB/B/20/007 **BRIFFIAD MEWN PWYLLGOR GAN Y CADEIRYDD AM WASANAETHAU IECHYD ARBENIGOL CYMRU**

DERBYNIWYD a **NODWYD** Briffiad y Cadeirydd mewn pwyllgor yn sgil y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019.

UHB/B/20/008/xx Nid oedd unrhyw faterion pellach felly cafodd y cyfarfod ei derfynu.

Eitem rhif 2.2.4 ar yr agenda

LLOFNODWYD:.....

Yr Athro Marcus Longley

DYDDIAD:.....

UNCONFIRMED